

AMDANOM NI ABOUT US

Mae Green GEN Cymru yn rhan o grŵp Bute Energy a bydd yn cysylltu'r ynni adnewyddadwy a gynhrychir gan barciau ynni Bute Energy.

Green GEN Cymru is part of the Bute Energy group and will connect the renewable energy generated by Bute Energy's energy parks.

Rydym yn gwneud cais i Ofgem am drwydded drydan fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO). Mae gennym gynlluniau i adeiladu a gweithredu rhwydwaith trydan ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd. Bydd ein cysylltiadau yn sicrhau y gall ynni adnewyddadwy lifo i'n cartrefi, ysbytai, ysgolion, busnesau a chymunedau.

Rydyn ni'n chwarae rhan ganolog wrth greu rhwydwaith mwy gwydn a dibynadwy – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle rydyn ni i gyd yn dibynnu mwy ar drydan wrth i ni symud oddi wrth nwy ac olew.

We are applying to Ofgem for an electricity licence as an Independent Distribution Network Operator (IDNO). We have plans to build and operate an electricity network for new renewables. Our connections will make sure renewable energy can flow to our homes, hospitals, schools, businesses, and communities.

We're playing a pivotal role in creating a more resilient and reliable network – providing for a future in which we all rely more on electricity as we move away from gas and oil.



Sganiwch y
côd QR i gael
mynediad i'n
gwefan



Scan the
QR code to
access our
website



YR ARGYFWNG HINSAWDD THE CLIMATE EMERGENCY

Mae newid hinsawdd yn bygwth ein bywoliaeth, ein tirweddau a'n bywyd gwylt.


Mae cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a rhoi terfyn ar ddefnyddio tanwyddau ffosil yn nod allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd – argyfwng a gydnabyddir gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys, a Chyngor Swydd Amwythig.

Mae pawb yn cytuno bod angen gweithredu ar frys i amddiffyn cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Climate change is threatening our livelihoods, landscapes and wildlife.

Generating more energy from renewable sources and ending the use of fossil fuels is a key aim in addressing the climate emergency – an emergency recognised by the UK Government, Welsh Government, by Powys County Council, and Shropshire Council.

All agree that urgent action is needed to protect current and future generations from the effects of climate change.



Strategaeth Cyngor Sir Powys ar gyfer Newid Hinsawdd.



“Mae Powys eisoes wedi profi tywydd eithafol gan gynnwys llifogydd a difrod stormydd. Mae ein gweithredoedd heddiw yn effeithio ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.”

Powys County Council's Strategy for Climate Change.



“Powys has already experienced extreme weather events including flooding and storm damage. Our actions today impact on both current and future generations.”

Newid Hinsawdd ar gyfer Cymunedau Cyngor Swydd Amwythig.



“Yn Swydd Amwythig, mae tueddiadau newid hinsawdd hirdymor yn golygu hafau poethach, sychach a gaeafau mwynach a gwlypach. Po fwyaf a wneir nawr i leihau allyriadau, y lleiaf eithafol fydd yr effaith ddisgwyliedig yn y dyfodol.”

Shropshire Council's Climate Change for Communities.



“In Shropshire, long term climate change trends mean hotter, drier summers and milder wetter winters. The more that is done now to reduce emissions, the less extreme the expected impact in the future.”



Sganiwch y côd QR i gael mynediad i'n gwefan



Scan the QR code to access our website



CYSYLLTIAD EFYRNWY FRANKTON VYRNWY FRANKTON CONNECTION

Nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y cynhwysedd i gysylltu'r parciau ynni arfaethedig.

Mae angen i'r cysylltiad newydd gael digon o gynhwysedd i gludo'r ynni o Barc Ynni Llyn Lort a datblygiadau gwynt ar y tir posibl eraill yng Nghanolbarth Cymru.

Rydym wedi asesu opsiynau ar gyfer sut a ble i gysylltu'r parciau ynni newydd â'r rhwydwaith trydan presennol, gan edrych ar opsiynau yn Swydd Amwythig, Gogledd a De Cymru.


Is-orsaf gasglu a chysylltiad 132kV newydd â'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol yn Swydd Amwythig yw'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn – byddai'n darparu capasiti ar gyfer Llyn Lort a ffermydd gwynt arfaethedig eraill yng Nghanolbarth Cymru ac yn osgoi'r angen am rwydwaith o lawer o gysylltiadau unigol llai.

The existing electricity network does not have the capacity to connect the proposed energy parks.


The new connection needs to have sufficient capacity to carry the energy from the Llyn Lort Energy Park and other potential onshore wind developments in Mid Wales.

We've assessed options for how and where to connect the new energy parks to the existing electricity network, looking at options in Shropshire, North and South Wales.


A collector substation and a new 132kV connection to the national transmission network in Shropshire is most efficient way to do this – it would provide capacity for Llyn Lort and other proposed windfarms in Mid Wales and avoid the need for a network of many, smaller individual connections.



Sganiwch y cōd QR i gael mynediad i'n gwefan



Scan the QR code to access our website



NODI'R LLWYBR A FFEFRIR IDENTIFYING THE PREFERRED ROUTE


Rydym wedi asesu opsiynau ar gyfer sut a ble i gysylltu'r parciau ynni newydd â'r rhwydwaith trydan presennol, gan edrych ar opsiynau yn Swydd Amwythig, Gogledd a De Cymru.

Yr opsiynau a berfformiodd orau oedd cysylltu â man ger Lower Frankton yn Swydd Amwythig, gyda llwybr trwy Ddyffryn Efyrynwy a Swydd Amwythig.

We've assessed options for how and where to connect the new energy parks to the existing electricity network, looking at options in Shropshire, North and South Wales.

The best performing options were to connect to a point near Lower Frankton in Shropshire, with a route through the Vyrnwy Valley and Shropshire.

Yn ein gwaith fe wnaethom asesu: In our work we assessed:



Effeithiau gweledol
Visual effects



Effeithiau cymunedol
Community effects




Costau
Costs



Amgylchedd a threftadaeth
Environment and heritage



Anghenion technegol
Technical needs



Rydym wedi trefnu ein cynigion yn adrannau. Darllenwch ein Llyfryn Ymgynghori am fwy o wybodaeth am bob un adran a beth sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau hyd yn hyn.

We have organised our proposals into sections. Please read our Consultation Brochure for more information on each section and what has influenced our decisions to date.

1

Cefn Coch i
Llangynyw
Cefn Coch
to Llangynyw

2

Llangynyw i
Meifod
Llangynyw
to Meifod

3




Meifod i
Llansantffraid-
ym-Mechain
Meifod to
Llansantffraid-
ym-Mechain

4

Llansantffraid-
ym-Mechain i
Llanymynech
Llansantffraid-
ym-Mechain to
Llanymynech

5

Llanymynech i
Lower Frankton
Llanymynech to
Lower Frankton




PAM PEILONAU? WHY PYLONS?

Mae peilonau i'w gweld mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle mae tirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o'r economi leol – mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn sawl man.

Cânt eu defnyddio ledled y byd fel modd wedi'i brofi o gysylltu ynni yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon.



Pylons feature in many areas in England and Wales where landscape, agriculture and tourism are thriving parts of the local economy – electrical infrastructure and these activities co-exist in many places.

They are used all over the world as a proven means of connecting energy safely, reliably and efficiently.



- Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflym i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Mae ceblau tanddaearol fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben
- Mae ceblau tanddaearol angen mwy o dir ac yn creu mwy o darfu ar y tir yn ystod y gwaith adeiladu

- Overhead lines can be developed quickly to tackle the climate emergency
- Underground cables are typically between 6 and 10 times more expensive than overhead lines
- Underground cables require more land and create more ground disturbance during construction



RHWYDWAITH I GEFNOGI'R RHANBARTH A NETWORK TO SUPPORT THE REGION

Gall y seilwaith sydd ei angen arnom i drosglwyddo i economi carbon isel ddod â llawer o fanteision hefyd. Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. A bydd yn cefnogi mabwysiadu technolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau.

The infrastructure we need to transition to a low carbon economy can also bring many benefits. It has the potential to create new skills and jobs, nationally and locally. And it will support the adoption of low carbon technologies in our homes and businesses.

Gall ein prosiect hefyd gyfrannu at rwydwaith mwy gwydn a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle rydym i gyd yn dibynnu mwy ar drydan wrth i ni symud oddi wrth olew a nwy. Mae rhwydwaith trydanol perfformiad uchel yn allweddol i:

Our project can also contribute to a more resilient and reliable network for the region – providing for a future in which we all rely more on electricity as we move away from oil and gas. A high performing electrical network is key to:




sicrhau bod cartrefi, addysg a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol, yn gallu manteisio ar ynni carbon isel

ensuring homes, education and businesses, both locally and nationally, have access to low carbon energy



gwneud y newid i ddyfodol lle byddwn yn rhoi terfyn ar y defnydd o olew a nwy

making the transition to a future in which we end the use of oil and gas



cefnogi cyflwyno technolegau carbon isel fel cerbydau trydan, pypiau gwres a thechnolegau eraill a fydd yn arferol yn y dyfodol

supporting the roll out of low carbon technologies such as electric vehicles, heat pumps and other technologies that will be normal in the future



helpu cymunedau i ffynnu drwy ddarparu cynhwysedd trydanol i gefnogi buddsoddiad mewn swyddi, busnesau a thai

helping communities prosper by providing electrical capacity to support investment in jobs, businesses, and housing



DWEDWCH EICH DWEUD

HAVE YOUR SAY

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor rhwng **6 Medi a 18 Hydref 2023**.


Rydym yn ymgynghori ar:


- y safle arfaethedig ar gyfer yr is-orsaf gasglu a'r compownd pen selio ceblau ym Mhowys
- y llwybr arfaethedig rydym wedi'i nodi ar gyfer llinell uwchben drwy Bowys a Swydd Amwythig

Rydym yn gofyn am eich adborth ar:

- unrhyw ffactorau y teimlwch nad ydynt wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yn hyn gan gynnwys nodi'r llwybr a ffefrir, yr is-orsaf gasglu a'r compownd pen selio ceblau
- unrhyw ffactorau y credwch y dylem eu hystyried wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y llwybr arfaethedig, yr is-orsaf gasglu a'r compownd pen selio ceblau

Sut i ddarparu adborth:

 defnyddio'r ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan: www.greengen.vyrnwyfrankton.com

 anfon e-bost at: info@greengen.vyrnwyfrankton.com

 anfon adborth ysgrifenedig atom: **Freepost Green GEN Cymru V2F**

Bydd Parc Ynni Llyn Lort Bute Energy hefyd yn ymgynghori ar yr un pryd. Maent yn cael eu datblygu ac ymgynghorir arnynt ar wahân ond maent yn rhannu'r un amserlen ymgynghori.

I roi adborth ar y parc ynni ewch i'w gwefan ymgynghori:



This consultation is open from **6 September to 18 October 2023**.


We're consulting on:


- the proposed site for the collector substation and cable sealing end compound in Powys
- the preferred route we've identified for an overhead line through Powys and Shropshire


We're asking for your feedback on:

- any factors you feel have not been considered in our work to date including the identification of the preferred route, collector substation and cable sealing end compound
- any factors you think we should consider when developing our proposals for the preferred route, collector substation and cable sealing end compound

How to provide feedback:

 online feedback form on our website: www.greengen.vyrnwyfrankton.com

 sending an email to: info@greengen.vyrnwyfrankton.com

 sending written feedback to us: **Freepost Green GEN Cymru V2F**

Bute Energy's Llyn Lort Energy Park will also be consulting at the same time. They are being developed and consulted on separately but share the same consultation timeline.

To provide feedback on the energy park please visit their consultation website:



LLINELL AMSER EIN PROSIECT OUR PROJECT TIMELINE

Mae prosiectau llinellau uwchben 132kV newydd arfaethedig sy'n fwy na 2km o hyd ac sy'n rhannol yn Lloegr ac yn rhannol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

Rhaid i ddatblygwyr NSIPau wneud cais i Lywodraeth y DU, drwy'r Arolygiaeth Gynllunio, am orchymyn caniatâd datblygu i adeiladu a gweithredu eu prosiectau. Mae'r broses hon yn gosod nifer o ofynion ar ddatblygwyr gan gynnwys asesiad amgylcheddol trylwyr, ac ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid.

Proposed new 132kV overhead line projects that are more than 2km in length and are partly in England and partly in Wales are classified as Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIP).

Developers of NSIPs must apply to the UK Government, via the Planning Inspectorate, for a development consent order to build and operate their projects. This process places several requirements on developers including thorough environmental assessment, and consultation with communities and stakeholders.

Amserlen y prosiect / Project timeline

2023

Medi – ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf
September – first public consultation

2024

Ail ymgynghoriad cyhoeddus
Second public consultation

2025

Cyflwyno ein gorchymyn caniatâd datblygu i'w adolygu

Submit our development consent order for review

2026

Y cynharaf y byddai'r cais yn cael ei benderfynu
Earliest the application would be decided

2027

Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau os caiff y prosiect ei ganiatáu


Construction begins if the project is consented

2028

Cysylltiad Efyrnwy Frankton yn weithredol
Vyrnwy Frankton connection is operational



Sganiwch y cōd QR i gael mynediad i'n gwefan



Scan the QR code to access our website



Buddsoddi mewn cymunedau

Investing in communities

Byddwn yn buddsoddi tua £800m dros 40 mlynedd yn y cymunedau sydd agosaf at ein prosiectau drwy ein Cronfa Budd Cymunedol a lywodraethir yn annibynnol. Bydd y gronfa yn agored i gynigion gan sefydliadau a grwpiau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar y cymunedau sydd agosaf at ein prosiectau.

Rydym eisoes yn:

- cefnogi gwelliannau hamdden, iechyd a lles
- gwella'r ddarpariaeth addysg leol
- nodi mwy o lwybrau i gyflogaeth ar gyfer pobl leol
- amlygu cyfleoedd i ddathlu diwylliant, treftadaeth a bioamrywiaeth lleol

Rhowch wybod i ni sut y gallwn gefnogi prosiectau a mynd i'r afael â materion yn eich cymunedau, fel y gall ein prosiectau ddod â buddion gwirioneddol i bobl leol.

We'll be investing approximately £800m over 40 years to the communities closest to our projects through our independently governed Community Benefit Fund. The fund will be open to proposals from organisations and groups impacting positively on communities closest to our projects.

We are already:

- supporting recreational, health and wellbeing improvements
- enhancing local education offering
- identifying more pathways into employment for local people
- highlighting opportunities to celebrate local culture, heritage and biodiversity

Let us know how we can support projects and tackle issues in your communities, so our projects can deliver real benefits to local people.

